CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

322/51

**ASTUDIAETHAU BUSNES**

**BS2**

P.M. DYDD LLUN, 5 Mehefin 2006

(1 awr)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen:

- cyfrifiannell;
- llyfr ateb 8 tudalen.

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir y marciau sydd ar gael mewn cromfachau.

Asesir ymgeiswyr yn ôl ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn yr atebion h.y. strwythuro a chyflwyno syniadau; eglurder mynegiant; sillafu, atalnodi a gramadeg. Rhoddir hyd at dri marc am y cyfathrebu ysgrifenedig.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

**1.** Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

## *Kellogg's – y* brand brecwast

Mae **ymchwil marchnata meintiol** yn dweud wrthym fod mwy na 40% o gartrefi'r DU yn debygol o fod â phecyn o *Kellogg's Corn Flakes*. Dyma'r grawnfwyd brecwast mwyaf poblogaidd yn y wlad, yn dal 11% o'r farchnad yn ôl maint, gyda'i gystadleuydd agosaf, *Weetabix*, yn dal 9%.

O'r cychwyn fe wnaeth W. W. Kellogg, sefydlydd y cwmni, sylweddoli yn llwyr bwysigrwydd hybu ei gynhyrchion a heddiw, 100 mlynedd yn ddiweddarach, mae'r cwmni'n dal i ystyried marchnata yn hanfodol i barhad ei lwyddiant.

Mae'r cwmni'n edrych bob amser i lansio cynhyrchion arloesol *(innovative)* ar y farchnad: mae un ar ddeg o'r ugain brand uchaf ym marchnad y DU am rawnfwyd brecwast yn gynhyrchion *Kellogg's*! Wrth lansio cynhyrchion newydd, mae'r cwmni wedi gweld mai strategaeth **prisio treiddio** *(penetration pricing)* fu'r fwyaf effeithiol yn aml.

*Addaswyd: Superbrands, Golygydd Marcel Knobil*

*(a)* Beth yw ystyr:

(i) *ymchwil marchnata meintiol*; [2]

(ii) *prisio treiddio*? [2]

*(b)* Pam y gallai prisio treiddio fod yn strategaeth briodol i *Kellogg's* ei defnyddio wrth lansio grawnfwyd brecwast newydd? [4]

*(c)* Eglurwch ffyrdd y gallai *Kellogg's* hybu grawnfwyd brecwast newydd yn effeithiol. [6]

*(ch)* Trafodwch y farn fod marchnata mor fuddiol *(beneficial)* i ddefnyddwyr ag yw i fusnesau. [6]

# TUDALEN WAG

**2.** Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

***Casey's Cyf***

Mae John Casey yn rhedeg cwmni crefftau'r cartref *(DIY)* sydd dan berchenogaeth y teulu ac sy'n cyflogi dau weithiwr. Mae'r ddau weithiwr wedi bod gydag ef ers iddo ef a'i chwaer etifeddu'r busnes 10 mlynedd yn ôl. Ers i gangen o *B&Q* agor ryw wyth milltir i ffwrdd, mae busnes wedi gostwng yn sylweddol. Am y rheswm hwn mae John yn awyddus i gwblhau trafodaethau i gyflenwi cwmni adeiladu lleol â'i holl ofynion paent am y tair blynedd nesaf. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol iddo gadw stoc ychwanegol, ond hefyd bydd yn ei alluogi i fanteisio ar ddisgownt arian parod o 10% gan ei gyflenwyr paent ei hun, cyhyd ag y bydd e'n parhau i wneud taliadau misol rheolaidd. Er mwyn cwrdd â gofynion y contract bydd angen iddo osod cyfarpar storio newydd ac mae'n amcangyfrif y bydd hwnnw'n costio tua £5 000 – arian y mae'n gobeithio cael ei fenthyg gan y banc.

Mae John yn ystyried y buddsoddiad yn werth chweil gan ei fod yn amcangyfrif y bydd y contract yn cynyddu ei drosiant blynyddol £20 000. Bydd y cwmni adeiladu yn ymrwymo i brynu ei holl baent ganddo ef, am bris sefydlog, dros y tair blynedd nesaf. Hefyd bydd yn setlo ei gyfrif bob chwe mis, ar ddiwedd Mehefin a Rhagfyr.

Mae John wedi gofyn i'w chwaer lunio rhagolwg llif arian yn seiliedig ar ei gynlluniau am y chwe mis nesaf, fel y gall ei ddefnyddio wrth drafod y benthyciad gyda rheolwr ei fanc. Ar hyn o bryd mae gan *Casey's* derfyn gorddrafft o £2 500 gyda'r banc.

*Rhagolwg Llif Arian ar gyfer Casey's Cyf: Ionawr hyd at fis Mehefin 2006.*

| £oedd | ION | CHW | MAW | EBR | MAI | MEH |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Derbyniadau** | | | | | | |
| Gwerthiant arian parod | 6 500 | 6 500 | 7 500 | 8 500 | 9 500 | 8 500 |
| Gwerthiant contract | | | | | | 10 000 |
| Benthyciad banc | 5 000 | | | | | |
| **Cyfanswm y derbyniadau** | 11 500 | 6 500 | 7 500 | 8 500 | 9 500 | 18 500 |
| **Taliadau** | | | | | | |
| Gosod cyfarpar storio newydd | 5 000 | | | | | |
| Pryniant stoc | 3 500 | 3 500 | 4 000 | 4 500 | 5 000 | 4 500 |
| Cyflogau | 2 000 | 2 000 | 2 000 | 2 400 | 2 400 | 2 400 |
| Yswiriant | | 450 | | | | |
| Trydan | 150 | | | 150 | | |
| Ffôn | | | 270 | | | 270 |
| Hysbysebu | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 |
| Ad-dalu'r benthyciadau | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 |
| Tyniadau *(Drawings)* | 2 300 | 2 300 | 2 300 | 2 500 | 2 500 | 2 500 |
| **Cyfanswm y taliadau** | 13 180 | 8 480 | 8 800 | 9 780 | 10 130 | 9 900 |
| | | | | | | |
| **Llif Arian Net** | (1 680) | (1 980) | (1 300) | (1 280) | (630) | 8 600 |
| **Gweddill Agoriadol** | 2 700 | 1 020 | (i) | (2 260) | (3 540) | (4 170) |
| **Gweddill Terfynol** | 1 020 | (960) | (2 260) | (3 540) | (ii) | 4 430 |

*(a)* Nodwch **ddau** barti allanol fydd yn dymuno archwilio cyfrifon cwmni ac eglurwch pam y byddant efallai yn dymuno gwneud hynny. [6]

*(b)* Cyfrifwch y gwerthoedd canlynol yn y rhagolwg llif arian:

(i) gweddill agoriadol ar gyfer mis Mawrth; [1]

(ii) gweddill terfynol ar gyfer mis Mai. [1]

*(Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb.)*

*(c)* Ar sail y rhagolwg llif arian **yn unig**, rhowch sylwadau ar y farn y byddai'r banc yn annhebygol o roi'r benthyciad o £5 000 i *Casey's Cyf*. [4]

*(ch)* Awgrymwch ffyrdd y gallai *Casey's Cyf* wella sefyllfa ei lif arian ac aseswch unrhyw ganlyniadau anffafriol y gallai eich awgrymiadau eu cael. [8]